

YN WYNEB HAUL

L L Y G A D G O L E U N I



# GORSEDD BEIRDD YNYS PRYDAIN

## Adroddiad Blynyddol Bwrdd yr Orsedd 2017



Cynhaliwyd Seremoni Cyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd ar y lawnt o flaen Neuadd y Ddinas yng Nghaerdydd ar ddydd Sadwrn 24 Mehefin. Diolch i Gerald Davies am fod yn Geidwad y Cledd ar yr achlysur hwn.

**ADRODDIAD TREFNYDD YR ARHOLIADAU  
2017**

- Mae'n hynod galonogol medru adrodd bod cyfundrefn Arholiadau'r Orsedd fel pe bai wedi cael 'ail wynt' eleni, gyda chynifer â saith ymgeisydd yn rhoi cynnig arni – a hynny mewn dwy ganolfan (Aberystwyth a Chaernarfon) - gan gwmpasu'r papurau arholiad a ganlyn:
  - Arholiad Cyntaf Cyfansawdd Barddoniaeth, Iaith, Rhyddiaith (5 ymgeisydd)
  - Arholiad Barddoniaeth 2 (1 ymgeisydd)
  - Arholiad Cerddoriaeth 1 (2 ymgeisydd)
  - Arholiad Cerddoriaeth 2 (2 ymgeisydd)
  
- Mae fy nyled i Nan Lloyd Williams (Nan Llwyd) am fod yn barod i drefnu lleoliad ar gyfer yr arholiadau yn Aberystwyth ac am oruchwylio ac arolygu'r ymgeiswyr ar y diwrnod. Mae'r Orsedd yn ffodus iawn fod caredigion fel hyn yn cynnig eu gwasanaeth yn ddiffino flwyddyn ar ôl blwyddyn yn ddi-dâl a dirwgnach er mwyn hyrwyddo'r arholiadau sydd mor agos at eu calon.
  
- Diolch i'r arholwyr perthnasol am fynd ati i osod a marcio'r papurau arholiad eleni (Y Cyn- Archdderwydd John Gwilym, Y Prifardd Llion, Y Prif Lenor Cefin, Cerddores Dwyfor, ac Ifor ap Gwilym) ac i'r Cyn-Archdderwydd John Gwilym am gynnal yr arholiad llafar yn Aberystwyth.
  
- Fel y llynedd, manteisiwyd eto eleni ar arbenigedd Gwenllian Carr, Pennaeth Cyfathrebu yr Eisteddfod, i ddefnyddio rhwydweithiau marchnata canolog yr Eisteddfod er mwyn sicrhau cyhoeddusrwydd i'r arholiadau:
  - tudalen benodol am yr arholiadau ar wefan yr Eisteddfod (<http://www.eisteddfod.cymru/arholiadau>)
  - rhyddhau datganiad i'r Wasg am yr arholiadau yn gynnar yn y flwyddyn.Diolchaf yn ddiffuant i Gwenllian am ei chymorth gyda'r gwaith pwysig hwn; mae'n amlwg iddo dalu ar ei ganfed eleni !
  
- Mynegaf fy ngwerthfawrogiad o gydweithrediad a chymorth parod fy nghyd-swyddogion yng Ngorsedd, ynghyd â staff canolog yr Eisteddfod, yn y gwaith o weinyddu a chyflawni'r dyletswyddau sy'n gysylltiedig ag aelodaeth o'r Orsedd trwy arholiad.
  
- Yn yr un modd, diolchaf yn arbennig i'r Arwyddfardd a'r Cofiadur am hwyluso fy ngwaith o baratoi'r tystysgrifau aelodaeth ar gyfer y seremonïau boreol. Diolch hefyd i'r disteiniad am eu cydweithrediad wrth oruchwylio cyflwyno'r tystysgrifau yn y seremonïau urddo ar y boreau Llun a Gwener.
  
- Gyda chyfnod y Maes Astudiaeth cyfredol yn dod i ben eleni, edrychwn ymlaen at lunio gofynion diwygiedig ar gyfer 2018-2019-2020, gan obeithio medru denu mwy fyth o ymgeiswyr ar gyfer y dyfodol.

*Gwyn o Arfon*

*Trefnydd yr Arholiadau  
Ebrill 20*

## Adroddiad yr Arwyddfardd

Bu i'm gweithgaredd blynyddol eleni ddilyn y patrwm arferol, sef dewis Mam a Morwyn y Fro ynghyd â'r Llawforynion a'r Macwyaid, trefnu'r dogfennau i gylchlythru yr holl aelodau, paratoi ffurflenni i wahodd aelodau newydd, yn ogystal â pharatoi ar gyfer y ceisiadau drwy'r post ac ar lein, ac yna eu derbyn a'u prosesu. Eleni mae mwy na hanner yr aelodaeth wedi archebu ar lein.

Cynhaliwyd seremoni Cyhoeddi Eisteddfod Caerdydd yn llwyddiannus ar 24 Mehefin ar y lawnt o flaen Neuadd Dinas Caerdydd, gan ddefnyddio'r cerrig mudol - hyn oherwydd nad oedd y tir o amgylch y Cylch wrth y Castell ar gael inni. Roedd llawer o waith trefnu yn gysylltiedig â'r seremoni gan gynnwys cydgordio â'r Amgueddfa Genedlaethol fel canolfan i'r gwisgo. Mae fy niolch yn fawr i staff yr Eisteddfod a staff yr Amgueddfa am hyn.

Gyda chymorth y Cofiadur bu inni gynnal a chwblhau'n trafodaethau ynglŷn â'r ddawns i seremoni brynhawn Mercher ym Môn gan fod tymor Dawnsywyr Sir Gâr wedi dod i ben. Cyfuniad o Gloeswyr Garmon, Dawnsywyr Delyn a Dawnsywyr Tanat fydd ar y llwyfan eleni o dan ofal Rhian Davies a Meinir Siencyn, a'r ddawns newydd yn cael ei chreu gan Meinir.

Yng nghyfarfod y Cyngor cafwyd sylw fod y Gorseddogion yn talu am ddod i'r Maes wrth archebu gwisg a'u bod hefyd yn talu eilwaith i ddod i mewn wrth archebu sedd gadw. Mae'r syniad yma yn hollol anghywir, ac mae hynny wedi ei nodi'n barod yn ein Cyfarfod Blynyddol. Taliad am holl waith gweinyddol yr Orsedd yw'r taliad tocyn gwisg - yn union fel y taliad y mae'r cystadleuwyr hwythau yn ei wneud tuag at waith gweinyddol y swyddfa. Yn sgîl y taliad yma mae'r unigolyn yn cael mynediad i'r Maes am ddim, a hawl i eistedd mewn sedd gyffredin yn y Pafiliwn. Dim ond os yw'r unigolyn eisïau sedd gadw y mae'n rhaid pwrcau tocyn ychwanegol. Cytunodd y Bwrdd nad oedd angen newid y drefn.

Nodais wrth y Bwrdd fod dathliad canmlwyddiant Eisteddfod Penbedw a'r Gadair Ddu yn cael ei gynnal yn y dref honno ar benwythnos 9/10 Medi, a'i bod yn fwriad cyfuno'n Cyfarfod Cymdeithasol am 2017 gyda'r dathliad yma. Hyn yn rhannol gan fod y Bwrdd eisïoes wedi cytuno y byddai'r Archdderwydd yn cynrychioli'r Orsedd yn seremonïau'r dathlu.

Dyfrig ab Ifor

# Adroddiad Arolygydd y Gwisgoedd 2017

## Cyhoeddi Eisteddfod Ynys Môn

Caergybi oedd lleoliad Cyhoeddi Eisteddfod Ynys Môn. Cawsom groeso cynnes gan Brifathrawes Ysgol Uwchradd Caergybi a phob hwylustod i baratoi at y Seremoni. 'Roedd safle Cerrig yr Orsedd yn hyfryd ac er ymarfer mewn tywydd braf ar y pawns Gwener yn anffodus oherwydd tywydd gwlyb ar y dydd Sadwrn bu raid cynnal y Seremoni yn neuadd yr ysgol.

Gorseddwyd yr Archdderwydd Geraint Llifon mewn Seremoni urddasol ac 'rwy'n edrych ymlaen i gydweithio ag ef am y tair blynedd nesa. Derbyniais gynnig Megan Williams i addasu gwisg yr Archdderwydd. Megan sydd wedi gwneud y wisg ac felly yn gwybod sut i'w addasu i ffitio.

'Roedd hi yn chwithig iawn heb gymorth Kathryn Rees gyda'r regalia sydd yn cael eu cadw yn Sain Ffagan. Mae Kathryn wedi bod yn gofalu amdanynt ers llawer blwyddyn. Fe ddywedwyd wrthi na fyddai angen iddi ddod i'r Cyhoeddi gan fod newid wedi bod yn y trefniadau gyda'r Eisteddfod. Fodd bynnag daeth Kathryn i'r Eisteddfod i ddweud helo a da yw deall bydd Kathryn yn cynorthwyo yn y dyfodol wedi i ni gael trafodaeth gyda hi a staff Sain Ffagan.

Gwisgwyd y penwisgoedd newydd am y tro cyntaf a'r ymateb i'w weld yn ffafriol ar y cyfan. Diolch yn fawr i bawb fu'n cynorthwyo mewn unrhyw fodd.

## Eisteddfod Sir Fynwy a'r Cyffiniau

Cawsom eisteddfod arbennig yn y Fenni. Mae'n rhaid imi ganmol y merched fu'n cynorthwyo gyda'r gwisgoedd dan arweiniad Mererid, Serah Louise a Rhian.

Gan fod y tair yn gweithio wythnos lawn bu rhaid newid trefniadau smwddio y gwisgoedd er mwyn eu gorffen mewn diwrnod. Aeth Marian a fi i'r Fenni ar y dydd Sadwrn cyn yr Eisteddfod i Ysgol Gynradd Gymraeg y Fenni. Gyda help y tair rhoddwyd yr enwau ar y gwisgoedd gan orffen bore Sul. Ar y Sul daeth y criw smwddio. Merched ifanc gan fwyaf ac un dyn yn eu cannol. 'Roeddynt wedi trefnu'r diwrnod i fwynhau. Digon o chwerthin, cerddoriaeth a chinio bwffe werth ei gael.

Cwblhawyd y gwaith gyda graen erbyn diwedd y prynhawn.



Yn ystod wythnos yr Eisteddfod 'roedd y tair yma a'r rhai oedd yn eu helpu mor frwdfrydig a llawen. Yn amlwg 'roeddynt yn ymfalchio yn eu cymreictod a'i bod yn cael pleser o fod yn rhan o weithgareddau'r Eisteddfod. 'Roedd yn bleser bod yn eu cwmni.

Cawsom gyfle i sylwi ar ymateb y gorseddogion i'r penwisgoedd newydd. 'Roeddynt yn rhy fychan i rai ond wedi iddynt ddeall fod posib rhoi estyniad yn y cefn dwi'n meddwl fod y rhan fwyaf yn eitha bodlon. Fe wnaif yn siwr fod merched Sir Fôn yn ymwybodol o hyn ymlaen llaw. Felly gobeithio bydd pawb yn cael penwisg sy'n ffitio.

Yn dilyn cais am ffrogiau i Mam a Merch y Fro ac i'r Llawforynion 'rwyf wedi gwneud rhai sydd rwan ar gael i'w llogi os yw'r merched yn dymuno. Awgrymwyd canllaw o tua £25 i £30 o dal llogi. 'Rwy'n meddwl y byddai gofyn am £10 am ddydd y Cyhoeddi ac yna £10 y dydd am dri diwrnod y Seremoniau yn yr Eisteddfod, sef cyfanswm o £40 yn ddigon rhesymol.

Fe fydd enw y Cyn Archdderwydd Christine yn cael ei frodio ar wisg yr Archdderwydd yn dilyn enw Jim Parc Nest.

Yng nghyfarfod Bwrdd yr Orsedd yn y Fenni cafwyd cais am benwisgoedd newydd i'r Cyn Archdderwyddon. Bydd rhain yn barod erbyn y Cyhoeddi yng Nghaerdydd yn dilyn eich cefnogaeth i'r cynllyn awgrymais yng nghyfarfod yr Hydref.

Bu Marian a fi yn yr ystordy yn Llanybydder i wneud trefn ar wisgoedd y Gorseddogion wedi iddynt ddod yn ol o'r golchdy. Eleni yn ogystal a rhoi y gwisgoedd mewn trefn llaester fe wnaethom ddiidoli y rhai oedd angen sylw—angen felcro newydd, botymau, coler neu flaen llawes newydd a.y.b. 'Rwyf wedi cwblhau 27o rai glas a 45o rai gwyrdd a'u dychwelyd i Lanybydder ac mae gennyf 49 o rai gwyn eisiau eu cwblhau.

Cefais gyfle ymlaen llaw i drafod cynllun yr ystafelloedd newid yng nghefn y Pafiliwn gyda Huw Aled. Awgrymais rai newidiadau o fewn yr un gofod. 'Roedd hyn gymaint gwell na 'mod i yn gofyn iddo newid pethau ar ddechrau'r Eisteddfod. Gan fod y merched a'r dynion ar wahân erbyn hyn mae cael fy ystafell yn y canol yn llawer mwy hwylus. Efallai fod posib gwella pethau eto. Fe gawn weld. Mae cefnogaeth staff yr Eisteddfod i baratoi y gwisgoedd yn arbennig ac 'rwy'n gwerthfawrogi popeth sydd yn cael ei wneud i hwyluso pethau.

Unwaith eto diolch i bawb am eich cefnogaeth gydol y flwyddyn.

Ela Cerrigellgwm

### [Ymweliad ag Erddig ger Wrecsam, 2016.](#)

Roedd criw ohonom wedi ymgynnull yn y Ramada ar fore Sadwrn, yr ail ar bymtheg o Fedi ac wedi dod o hyd i'r coffi a oedd wedi ei ddarparu ar ein cyfer! Yn dilyn hyn cawsom ddwy wledd a'r gyntaf ohonynt oedd darlith ar Blas Erddig gan Gareth Vaughan Williams a'r llall oedd bwffe blasus a drefnwyd ar ein cyfer gan yr Arwyddfardd.



Disgrifiodd Gareth ei hun fel gŵr byr ei daldra ond gwelsom ei fod yn gawr o hanesydd! Aeth â ni yn ôl dros dair canrif i'r cyfnod pan adeiladwyd y darn cyntaf o'r plas gan rannu ei wybodaeth fanwl o'r datblygiadau ar y safle o'r pryd hynny hyd y dydd heddiw. Ond nid y plas oedd yr adeilad cyntaf ar beth sydd heddiw'n dir Erddig, ychydig i'r de o dref Wrecsam. Awn yn ôl sawl canrif arall i'r amser pan sefydlwyd castell mwnt a beili yno ar gyfer llywodraethwr y rhan hon o ogledd-ddwyrain Cymru a'r gororau. Y mae'r olion yn dal yno.

Ar ôl rhoi cefndir yr adeilad inni trodd Gareth wedyn at hanesion difyr am bron bob sgweiar a fu'n berchen ar stâd Erddig! Y diweddaraf oedd Philip Yorke a etifeddodd y plas ym 1966. Roedd hwnnw yn ymddangos i mi yn dipyn o ecsentrig – dyn oedd yn mynnu marchogaeth ei feic peni-ffardding o gwmpas yr ardal! Roedd dau o'r beiciau hyn wedi eu cadw ac yn cael eu harddangos yn un o'r adeiladau nid nepell o'r stablau. Yn y stablau, gyda llaw, roedd tri cheffyl *Shire* hardd ac yn annisgwyl, mewn stolion eraill gerllaw, dau ful! Credaf y byddai'n well gen i eu gweld allan ar y caeau yn hytrach nag yn gaeth mewn stablau er mwyn diddori'r ymwelwyr.

Bu cryn ddirywiad yng nhyflwr yr adeilad dros y blynyddoedd ac un o'r prif resymau oedd ymsuddiad anwastad oherwydd y gweithfeydd glo yn ddwfn oddi tanodd. Gwariwyd arian sylweddol yn cywiro hyn gan ddod â'r adeilad yn ôl i gyflwr gweddol wastad. Yn y cyflwr hwn yr etifeddodd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol y stâd gan addo, yn y broses, i dderbyn a chadw holl drugareddau'r Sgweiar Yorke. Ond wedi gweld y pethau hyn sylweddolem gymaint o hanes sydd wedi ei gadw ynddynt. Wrth gwrs, ymysg y 'pethau' mae gwrthrychau drudfawr hefyd gan gynnwys un portread gwych gan Gainsborough.

Adferwyd y gerddi gan yr Ymddiriedolaeth i gyflwr pur agos at y gwreiddiol. Lle bu defaid Philip Yorke gynt yn pori rhwng drain a mieri mae heddiw ôl blynyddoedd o waith cywraïn gaddwyr proffesiynol. Ac os âf yn ôl yno eto, mi wnafl hepgor y tŷ a chrwydro wrth fy mhwyssau drwy'r gerddi a'r mil o aceri o'u hamgylch gan ddiolch i'r Arwyddfardd a Gareth am agor fy llygaid i'r fath wychder.

Llŷr Dafis Gruffydd

## Cysylltiadau Celtaidd

Penodwyd Hywel Wyn Edwards yn Swyddog Cysylltiadau Celtaidd Gorsedd y Beirdd ym mis Hydref 2016 i olynu Mererid.

**Ein cynrychiolwyr ni yng ngwyliâu'r Celtiaid yn 2017:**

CERNYW:	Y Cyn-Archdderwydd Christine
IWERDDON:	Huw Tomos
LLYDAW:	Hywel Wyn
YNYS MANAW:	Steffan Rhys Hughes
YR ALBAN:	Jim Parc Nest a Manon Rhys
PATAGONIA:	

- **Seremoni'r Fedal Ryddiaith**

Clocswyr Garmon fydd yn cyflwyno'r ddawns am y tair blynedd nesaf ac mae'r grŵp, dan ofal Meinir Siencyn.

- **Gŵyl Hedd Wyn ym Mhenbedw**

Cynhelir Gŵyl Hedd Wyn ym Mhenbedw ar y 9fed o Fedi. Trefnwyd rhaglen ddiddorol o weithgareddau dan arweiniad D. Ben Rees ar gyfer yr achlysur hwn. Bydd Cyfarfod Cymdeithasol Yr Orsedd yn cyd-fynd â'r digwyddiad hwn. Cynrychiolir yr Orsedd gan yr Archdderwydd Geraint Llifon.

- **Cofio Hedd Wyn a'r Gadair Ddu**

Bydd replica o'r Gadair Ddu ar lwyfan y Brifwyl ar gyfer Seremoni'r Cadeirio yn Eisteddfod Genedlaethol Môn eleni. Bydd yr Archdderwydd yn agor y seremoni trwy gyfeirio at ganmlwyddiant marwolaeth Hedd Wyn.

- **Canllawiau newydd gogyfer enwebu pobl er anrhydedd i fod yn aelodau o'r Orsedd.**

O hyn ymlaen ni chaniateir i unrhyw aelod o'r Orsedd enwebu un o'u teulu eu hunain i gael ei urddo er anrhydedd. Cofier hefyd na all unrhyw aelod o'r Orsedd enwebu/eilio mwy na 2 berson ar gyfer eu hurddo er anrhydedd.

## **Ffarwel y Cofiadur!**

Yn dilyn wyth mlynedd yn y swydd, daeth yn amser i mi drosglwyddo'r awenau i ddwlyo newydd. Dymunaf bob llwyddiant i fy olynnydd, Y Cyn Archdderwydd a'r Prifardd Christine a gwn yn sicr y bydd yr Orsedd mewn dwylo hollol saff am flynyddoedd i ddod. Diolchaf i chi gyd am eich cydweithrediad a'ch cefnogaeth gydol y cyfnod. Diolch i Swyddogion Yr Orsedd am eu cymorth a'u cyfeillgarwch. Mae fy niolch hefyd yn fawr i staff ymroddedig yr Eisteddfod a fu'n gymaint o gymorth i mi dros y blynyddoedd.

Penri Tanad